# SchoolBeat.org



Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Cylchlythyr

## Hydref 2015

The All Wales School Liaison Core Programme
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Gydweithiwr,

## Gobeithio eich bod wedi mwynhau gwyliau'r haf.

**Mae rhifyn yr hydref yn llawn gwybodaeth ddiddorol, gan gynnwys erthygl arbennig ar Sylweddau Seicoweithredol Newydd.**

## Cynnwys...

**ERTHYGL ARBENNIG**


Sylweddau Seicoweithredol Newydd ........ p 2-4
Gwir neu Anwir – Dylanwad y Rhyngrwyd ar SSN ........ p 5
Hwb Cymru – Adran e-Ddiogelwch ........ p 7
Rhoi Sylw i Gyffuriau – Cocên ........ p 8
Beth sy'n newydd? ........ p 10


# Sylweddau Seicoweithredol Newydd






**"Nid ydym yn gwybod digon am nifer y bobl sy'n cymryd SSN a'r niwed y gall y sylweddau ei achosi."**

Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Sylweddau Seicoweithredol Newydd 2015

- Fersiynau synthetig o gyffuriau, sy'n dynwared effeithiau cyffuriau anghyfreithlon ydi **Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN).**
- Mae **SSN** yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio amrywiaeth o gynnyrch llysieuol a phlanhigion, cyfansoddion cemegol synthetig a hyd yn oed nwyon.
- Yn y cyfryngau fe gyfeirir at **SSN** fel ***'Anterthau Cyfreithlon'*** sydd yn gamarweiniol ac sy'n camhysbysu'r bobl sy'n eu gwneud i feddwl bod y sylweddau hyn ychydig yn fwy diogel i'w cymryd.





## Pam bod pobl ifanc yn cymryd SSN?

**Mae yna nifer o resymau pam eu bod efallai'n cael eu denu i gymryd SSN, a elwir yn flaenorol yn gyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg:**

- Gall person ifanc fod yn chwilfrydig am gyffuriau
- Ystyrir bod SSN yn gyfreithlon ac felly efallai bod y person ifanc yn credu eu bod yn ddiogel
- Mae SSN yn eithaf rhad i'w prynu ac maent ar gael i'w prynu yn eithaf hawdd ar-lein
- Gall person ifanc fod dan bwysau a'i fod yn barod i gymryd sylwedd er mwyn cael ei dderbyn gan ei gyfoedion
- Mae SSN yn cael eu marchnata fel cyffuriau cyfreithlon ac felly gall pobl ifanc ystyried eu bod yn ddiogel.




## Ffeithiau i'w cofio am SSN

- Nid yw'r ffaith eu bod yn gyfreithiol yn golygu eu bod yn ddiogel
- Mae'r risgiau yn cynnwys mwy o hyder, teimlo'n gysglyd, wedi cynhyrfu neu deimlo'n paranoid, coma, ffit a marwolaeth
- Mae'r rigiau yn cynyddu os ydynt yn cael eu cymryd gydag alcohol neu gyffuriau eraill
- Mae ganddynt risgiau iechyd tebyg i gyffuriau fel Cocên, Ecstasi a Sbîd
- Gall pobl ifanc gael gafael arnynt yn hawdd
- Mae'n debygol bod SSN yn cynnwys un neu fwy o sylweddau anghyfreithlon.




## Oes posib i berson ifanc fod mewn trwbwl os ydyw'n cael ei ddal gyda SSN?

**Gall person ifanc gael ei arestio am fod ym meddiant SSN oherwydd gall gynnwys sylwedd anghyfreithlon.**

Mae'n bosib y bydd y sylwedd yn cael ei brofi er mwyn gweld beth ydyw. Os caiff person ei arestio/euogfarnu yna bydd hyn yn aros ar gofnod yr unigolyn a byddai'n ymddangos ar wiriadau Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan gyflogwyr. Nid yw'n rhywbeth i'w fychanu.

# Sylweddau Seicoweithredol Newydd

## Ffactorau i'w hystyried

**Gall arwyddion a symptomau SSN fod yn debyg iawn i sylweddau anghyfreithlon.**

**Gall sylweddau effeithio pawb yn wahanol.**

**YMDDANGOSIAD – Meddw, colli pwysau, colli diddordeb yn eu hymddangosiad, llygaid yn edrych yn wahanol, problemau â'r croen, anarferol o egnïol**

**YMDDYGIAD – Anrhagweladwy, afresymol, dirywiad yn eu gwaith ysgol, cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol, newid ffrindiau**

**PERSONALIAETH – Hwyliau ansad, croendenau, blinder, tawedog, digalon, diffyg canolbwyntio, anarferol o siaradus**



I gefnogi rhaglen ABCh eich ysgol, mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi ymateb drwy greu gwers newydd or enw Newydd a Niweidiol sy'n canolbwyntio ar SSN ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Hefyd mae yna gyflwyniad ar gael i rieni a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion i'w ddefnyddio mewn ysgolion.


**Cysylltwch â'ch SHCY i gael mwy o wybodaeth neu i drefnu gwers.**






# ‘Gwir neu Anwir?’

Mae’r rhyngrwyd yn caniatáu i blant a phobl ifanc gael mynediad i wybodaeth am gyffuriau. Gall y wybodaeth hon fod yn annibynadwy a gall rhai gwefannau ddweud ei bod yn iawn cymryd cyffuriau.







Yn aml fe gyfeirir at SSN fel ‘Anterthau Cyfreithlon’ sy’n gallu camarwain rhai pobl i feddwl eu bod yn fersiynau diogelach o gyffuriau anghyfreithlon. Mae’n anodd plismona’r rhyngrwyd ac felly mae’n bwysig ein bod yn cyfeirio pobl ifanc at ffynonellau dibynadwy o wybodaeth.

Weithiau mae gwefannau yn cael eu rheoli gan ddefnyddwyr cyffuriau. Mae hyn yn ei hun yn peri pryder oherwydd ei bod yn anodd i unigolion ddilysu’r wybodaeth sy’n cael ei chyflwyno iddynt. Mae pobl ifanc yn eithriadol o agored i niwed yn hyn o beth gan fod tystiolaeth wedi dangos bod pobl ifanc yn ei chael hi’n anodd gwybod pa ffynonellau o wybodaeth i ymddiried ynddynt.



meic
gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer eich bywyd
information, advice and support for your life

FRANK
0800 77 66 00 talktofrank.com
Friendly, confidential drugs advice

# Pa mor ddibynadwy ydi'r Rhyngrwyd?



## Sut fyddai'n gwybod os ydi'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein am gyffuriau yn ddibynadwy?

- Chwiliwch am wefannau gan sefydliadau sefydledig e.e. **DAN 24/7**
- Chwiliwch am wefannau sy'n cael eu rheoli gan Arbenigwyr Iechyd, yr Heddlu neu Gynghorwyr Cyffuriau
- Gwiriwch ddyddiad y wefan
- Cadwch draw o wefannau masnachol – os ydi gwefan yn gwerthu SSN, yna mae'n debyg bod y wybodaeth yn annibynadwy
- Dylech osgoi awduron dienw – Efallai nad ydynt eisiau bod yn gyfrifol am eu cyhoeddiadau

dan Wales Drug and Alcohol Helpline
Cyffuriau ac Alcohol Cymru

Freephone
**0808 808 2234**
Or text **DAN** to
**81066**

**dan247.org.uk**
**Point of contact** for anyone in Wales wanting further information or help relating to drugs and or alcohol

## KNOW DRUGS: The Parents' Guide iPhone/iPad app




**Mae'r ap yma yn cynnwys yr holl wybodaeth a chyngor sydd ei angen ar rieni a gofalwyr i ddeall y materion pwysig am bobl ifanc a chamddefnyddio cyffuriau.**

**Mae'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cyffuriau mwyaf newydd sydd ar y strydoedd, eu heffeithiau, y peryglon ac arwyddion i edrych allan amdanynt – gan gynnwys 'Anterthau Cyfreithlon'.**

**Mae'r ap yn cynnwys 60 o fideos byr am effeithiau cymryd cyffuriau a beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r adran Cwestiynau a Ofynnir Amlaf yn cynnig atebion i'r cwestiynau a ofynnir amlaf gan rieni a gofalwyr.**

# hwb.wales.gov.uk

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i gadw plant a phobl ifanc Cymru yn ddiogel ar-lein. Maent yn cynhyrchu canllawiau ac adnoddau digidol fel bod plant, rhieni a gofalwyr ac oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol.**
**Mae'r adnoddau hyn ar gael ar Adran e-Ddiogelwch Hwb.**

## AWGRYMIADAU

Mae'r adran hon yn rhoi amrywiaeth o gyngor a chanllawiau i blant gan gynnwys beth i'w wneud os ydynt mewn trafferth, yn anfon negeseuon cas neu'n defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol pan nad ydynt ddigon hen.



**Yn ôl OFCOM, pa % o blant y DU sy'n debygol o fod â mynediad i gyfrifiadur llechen?**

Ateb: 70% o blant

## ADNODDAU



Drwy glicio ar y tab ysgolion, gall athrawon gael gwybodaeth am beth i'w wneud os bydd rhywun yn agor cyfrif cyfryngau cymdeithasol ffug yn eu henw, a pha mor hyderus ydi ysgolion pan maent yn delio â diogelwch ar-lein.

**Oeddech chi'n gwybod bod rhaid i ddefnyddwyr y mwyafrif o wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol cyffredin fod dros 13?**




## CYNGOR

Mae'r adran hon yn nodi beth ddylai rhieni ei wneud am seiberfwlio ac mae'n siarad trwy'r materion sy'n ymwneud â phlant yn gwylio pornograffi.



# Rhoi sylw i Cocên

**Mae Cocên yn gyffur Dosbarth A, ac weithiau fe'i elwir yn Côc, Charlie, Snow, Dust, C neu'n Freebase.** Y math mwyaf cyffredin o Gocên ydi powdr crisialaidd gwyn. Fel arfer caiff hwn ei anadlu trwy'r ffroenau ('ffroeni'), ond hefyd gall defnyddwyr ei wneud yn doddiant a'i chwistrellu i mewn i wythïen. Mae chwistrellu yn cynyddu'r risgiau cysylltiedig.

Mae Crac yn fath o Gocên y gellir ei ysmygu ac mae ar ffurf lympiau neu 'greigiau' bychan. Mae Cocên yn deillio o blanhigyn Dail Coco yn Ne America ac mae wedi cael ei ddefnyddio ers 2,500 CC. Yn 1884 cafodd ei adnabod fel anesthetig lleol ar gyfer llawdriniaethau.

## Effeithiau

- Gall yr effeithiau cyntaf ddechrau ar ôl 12-20 munud a gallant bara 15-30 munud.
- Bydd y defnyddiwr yn teimlo'n llon, yn hyderus, yn gynhyrfus ac yn fwy bywiog.
- Gall Cocên wneud i rai ymddwyn yn ymosodol, gwneud iddynt deimlo'n nerfus a chroen denau, gallant fod yn ddryslyd, cael pyliau o banig, bod â phwysedd gwaed uwch, cael ffitiau a cholli pwysau.
- Mae defnyddwyr yn datblygu goddefiad a dibyniaeth i Gocên sy'n gallu bod yn ddrud ac sy'n gallu niweidio iechyd a lles.



## Beth ydi'r risgiau?

- Mae'r effeithiau corfforol yn cynnwys niwed i'ch dannedd, afiechyd dannedd, wlserau, methiant yr arennau, gwaedu (gwaedlif), difrod i'r iau, poen yn y frest, rhythm calon annormal, llid cyhyrau'r galon, problemau anadlu, ataliad y galon neu strôc.
- Gallwch wneud niwed hirdymor i bilenni'r trwyn o ganlyniad i ffroeni.
- Gallwch hefyd golli'r gallu i arogli, gallwch gael trafferth cofio, teimlo'n flinedig, seicosis paranoid, teimlo'n unig, gweld pethau, bod yn obsesiynol, dioddef ymddygiadau ailadroddus neu hyd yn oed farw.



# AMLGYFFURIAU A CHOCÊN

**Amlgyffuriau ydi cymryd mwy nag un cyffur, yn aml gyda'r bwriad o fwyhau neu wrthwneud effeithiau cyffur arall.**

Un enghraifft ydi lle mae Cocên a Heroin yn cael eu cymryd gyda'i gilydd. Mae Heroin yn iselydd tra bod Cocên yn symbylydd. Arferiad arall sy'n hynod o beryglus ydi **'Yfed gyda Charlie'** lle mae person yn cymryd Alcohol gyda Chocên, gan gynyddu peryglon y ddau gyffur. Mae Gwyddonwyr ac ymchwilwyr wedi darganfod bod sylwedd o'r enw cocaethylen yn cael ei greu yn iau person pan fydd alcohol a Chocên yn cael eu cyfuno. Mae hyn yn cynyddu'r risg o farwolaeth yn sylweddol. Mae'n rhoi straen aruthrol ar y corff, ac mae'r sgil-effeithiau yn cynnwys ymddygiad ymosodol neu'r risgiau sy'n deillio o fod mewn sefyllfaoedd diamddiffyn. Mae'n cymryd dwywaith yr amser i gael ei brosesu gan y corff nag y mae alcohol yn unig ac mae'n cynyddu'r risg o niwed i'r iau a rhannau eraill o'r corff.

**Gall cymryd ddau gyffur neu fwy ar yr un pryd neu o fewn amser byr i'w gilydd fod yn hynod o beryglus. Mae yna risg sylweddol o orddos a marwolaeth.**




> "Mae camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd mwyaf dinistriol y gall pobl niweidio eu hunain, eu teuluoedd a'r cymunedau lle maent yn byw. Rydym yn benderfynol o daclo hyn."
>
> – Vaughan Gething, 2015

## Cocên a'r Gyfraith

**Mae powdr Cocên a Chrac Cocên yn gyffuriau Dosbarth A.**

**MEDDU:** Hyd at 7 mlynedd o garchar

**CYFLENWI:** Hyd at OES o garchar



### Ffeithiau am gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru:

- Mi wnaeth heddluoedd Cymru gofnodi 11,766 o droseddau cyffuriau yn 2013-14.
- Roedd yna 135 o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn 2013

# Beth sy'n newydd?

Yn ogystal â'n gwers CA3 newydd ar SSN, rydym wedi llunio cyflwyniad byr ar gyfer rhieni/gofalwyr i hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â SSN a hefyd i fynd i'r afael â chamsyniadau cyffredin.







## Anffurio Organau Cenhedlu Merched

Dros yr haf mae merched mewn mwy o risg o AOCM oherwydd dyma pryd maent fwyaf tebygol o gael eu hebrwng dramor i hyn gael ei wneud. Cofiwch, ar ddechrau'r tymor newydd os ydych yn pryderu am ferch, gwnewch rywbeth. Lawrlwythwch Boster AOCM Llinell Gymorth NSPCC a'i arddangos.




## Gwasanaethau Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc

Gall eich Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion roi cyflwyniad yn eich ysgol. Mae'r cyflwyniad ar gael i CA2 A CA3/4. Mae'n canolbwyntio ar aros yn ddiogel ac osgoi mynd i drwbwl ar Nos Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.




**Ymholwch nawr!**



